

CRONFA GANOLRADD FFOS-Y-FRAN 2021/22

BETH YW CRONFA GANOLRADD FFOS-Y-FRAN?

Mae Cronfa Ganolradd Ffos-y-Fran ar gael ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sydd yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Dylai pob cais gefnogi prosiectau yn y gymuned leol ac iddynt bwyslais addysgol, amgylcheddol neu hamdden.

GRANTIAU

- ☐ Mae grantiau ar gyfer costau Refeniw/Cyfalaf. **Nid oes lleiafswm trothwy; fodd bynnag yr uchafswm y gellir gwneud cais ar ei gyfer yw £5,000**
- ☐ Mae'n rhaid i chi ddechrau gwario'r grant yn syth
- ☐ Mae'r Gronfa Ganolradd yn caniatáu un cais llwyddiannus yn unig ar gyfer pob cyfnod o 12 mis
- ☐ Mae arian cyfatebol yn ofyniad ar gyfer y gronfa a gall hyn fod mewn arian neu trwy gyfraniadau mewn nwyddau.

Gall y grantiau gynnwys costau cyfalaf a refeniw. Refeniw yw gwariant ar nwyddau o ddydd i ddydd i redeg gwasanaethau, fel:

- ☐ Costau rhedeg o ddydd i ddydd
- ☐ Hyfforddiant
- ☐ Costau gwirfoddolwyr
- ☐ Marchnata / digwyddiadau

Cyfalaf yw gwariant ar asedau y gellir eu defnyddio am nifer fawr o flynyddoedd, fel:

- Offer
 - ☐ Gwaith adeiladu (mewnol ac allanol) Building

PROSIECTAU CYMWYS

Dylai pob prosiect a gyflwynir i Gronfa Ganolradd Ffos-y-fran, gefnogi prosiectau yn y gymuned leol ac iddynt bwyslais addysgol, amgylcheddol neu hamdden. Mae'n rhaid i'r prosiect fod wedi'i leoli ac er budd preswylwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a chyflawni un neu ragor o'r themâu oddi fewn i Gynllun Integredig Merthyr Tudful:

- ☐ Mae gan bobl ym Merthyr Tudful gyfle a dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn gwneud y mwyaf o'u potensial, yn llawn
- ☐ Mae pobl ym Merthyr Tudful yn cael budd o economi sydd yn gryf, cynaliadwy ac amrywiol
- ☐ Mae pobl sydd yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn cael eu cynorthwyo i fwynhau ansawdd bywyd iach a gwell
 - ☐ Mae pobl yn mwynhau lle bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i fyw, gweithio, chwarae ac ymweld ag ef.

Ni fydd cais er mwyn talu cyflogau'n unig yn cwrdd â'r meini prawf ac felly, ni fydd yn cael ei ystyried.

Os bydd angen cyllid pellach ar eich prosiect a fydd yn dod o gronfa arall, bydd rhaid i'r arian cyfatebol hwn fod yn ei le cyn i chi wneud cais am Gronfa Ganolradd Ffos-y-fran. Bydd angen i'r panel weld tystiolaeth fod arian cyfatebol wedi'i sicrhau.

Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno ynghyd â pholisïau sefydliadol perthnasol eraill fel Iechyd a Diogelwch, Cyfle Cyfartal a Diogelu (lle y mae hynny'n berthnasol.) Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar y rhestr wirio ar ddiwedd y ffurflen gais hon.

DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU

Mae ceisiadau'n cael eu hasesu bob yn ail flwyddyn. Gellir cael dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau drwy gysylltu â Cheryl Jones ar 01685 726225 neu e-bostiwch: cheryl.jones@merthyr.gov.uk

SUT MAE CEISIADAU LLWYDDIANNUS AR GYFER CRONFA GANOLRADD FFOS-Y-FRAN YN CAEL EU MONITRO?

Bydd Tîm Cronfa Ewropeaidd ac Allanol CBSMT yn cynnal ymweliadau monitro yn ystod y flwyddyn. Bydd yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal yn ystod y prosiect, hanner ffordd drwy'r prosiect ac ar ei ddiwedd. Disgwylir i ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen fonitro unwaith bydd y prosiect wedi'i gwblhau a chyflwyno anfonebau, derbynebaw ac ati er mwyn cefnogi gwariant y grant.

PA GYMORTH SYDD AR GAEL ER MWYN EICH CYNORTHWYO Â'CH CAIS AR GYFER CRONFA GANOLRADD FFOS-Y-FRAN?

Mae'r Tîm Cronfa Ewropeaidd ac Allanol yn hapus i gwrdd â chi er mwyn eich cynghori o ran trafod syniadau ar gyfer y prosiect a chwblhau'ch ffurflen gais. Fodd bynnag, ni fydd y tîm yn cwblhau'ch ffurflen gais ar eich rhan.

AM RAGOR O WYBODAETH, CYSYLLTWCH Â:

Cydlynnydd Cronfa Buddiant Grantiau Ffos-y-fran -

cheryl.jones@merthyr.gov.uk

[<mailto:cheryl.jones@merthyr.gov.uk>](mailto:cheryl.jones@merthyr.gov.uk) neu 01685 726225